

HAF 2023

Cyfechgrawn HWYLY YR HAF

**RHWNG 18-25
OED?**

Cyrsiau am ddim
ar gael

10

**LLŶN AC
EIFIONYDD**

Dych chi'n dod i'r
Eisteddfod?

16

**COGINIO GYDA
COLLEEN**

Dych chi'n hoffi
coginio?

18



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn



Dona Lewis
Prif Weithredwr y Ganolfan
Dysgu Cymraeg Genedlaethol

CROESO

Croeso i gylchgrawn Hwyl yr Haf!

Chwilio am rywbeth i'w ddarllen dros yr haf? **Rhowch gynnig** ar gylchgrawn Hwyl yr Haf.

Mae 'na **erthyglau** i ddysgwyr ar bob lefel, o lefel Mynediad i lefel Uwch - ond beth am roi cynnig ar ddarllen pob erthygl?


Mae **posau**, rysâit, a sgysiau o bob math yn y cylchgrawn. Os dych chi'n mwynhau'r cylchgrawn, anfonwch ebost:


swyddfa@dysgucymraeg.cymru.

Mae dwy **gystadleuaeth** yn y cylchgrawn. Dych chi'n gallu ennill cwrs Dysgu Cymraeg am ddim (tudalen pump), a llyfr coginio Colleen Ramsey (tudalen 20). Pob lwc!

Dych chi'n mynd i **gofrestru** ar gwrs gyda ni ym mis Medi? Mae cyrsiau ar bob lefel ar gael, ac mae croeso cynnes i bawb.



 Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gweithio gyda 11 **darparwr cyrsiau**, sy'n trefnu cyrsiau Dysgu Cymraeg. Am fwy o wybodaeth, ewch i dysgucymraeg.cymru

 **CYRSIAU NEWYDD DISGOWNT 50%**

Dysgu Cymraeg gyda ni'n barod? Defnyddiwch y côd 'CYW23' cyn diwedd Gorffennaf i gael disgownt 50% ar eich cwrs nesaf. Ewch i dysgucymraeg.cymru i gofrestru.

Interested in learning Welsh? New 'Entry' level courses for beginners are starting in September. Use the code 'WELSH23' to get a 50% discount - just £45 for the year. Sign up at learnwelsh.cymru

Atebion y Croesair

Ar draws
1. wythnos
2. gwyli
3. coron
4. eisteddfod
5. oddi
6. iolo
7. canu
8. pafllwyr
9. taf
10. lawr
11. hurfen ia
12. glas
13. awst
14. de
15. gwitrddodolwyr
16. stonidi
17. crefft

“ The National Centre for Learning Welsh works with 11 course providers to deliver a range of Welsh courses. Go to learnwelsh.cymru for more information. We hope you enjoy the magazine and if you have any suggestions, please email office@dysgucymraeg.cymru. ”

Diolch yn fawr i bawb sy wedi gweithio ar Hwyl yr Haf. Diolch i bawb sy wedi ysgrifennu ac i'r ffotograffwyr, ac i Manon Llwyd Bowen, Angharad Prys, Anest Roberts, Helen Morfydd, Helen Prosser a Hannah Thomas am eu gwaith. **Dyluniwyd** gan Washington Design.

Mae'r wybodaeth yn y cylchgrawn yn gywir wrth i ni fynd i'r wasg, ond gall pethau newid. All information is correct as we go to press, but may be subject to change.

”

GEIRFA

rhowch gynnig ar - to give it a go
erthyglau - articles
posau - puzzles
cystadleuaeth - competition
cofrestru - register
Prif Weithredwr - Chief Executive
darparwr cyrsiau - course provider
dyluniwyd - designed

YN Y RHIFYN HWN

SGWRS GYDA PARISA FOULADI

Holi'r gantores
Parisa Fouladi

12



LLŶN AC EIFIONYDD

Dych chi'n dod i'r
Eisteddfod?

16



AR Y CLAWR

COGINIO GYDA COLLEEN

Dych chi'n hoffi coginio?

18

4-5 Mwynhau eich Cymraeg
Eisiau ymarfer eich Cymraeg dros
yr haf?

6 Posau
Dych chi'n hoffi gwneud posau?

**7 Felicity yn helpu'r Gymraeg i
ffynnu**
Dych chi'n adnabod Felicity
Roberts?

8-9 Byd rygbi
Sgwrs gyda Gwyn Derfel

10 Rhwng 18-25 oed?
Cyrsiau am ddim ar gael

11 Croeso i Bawb
Sgwrs gyda Vladyslav Kulikov

12-13 Parisa Fouladi
Holi'r gantores Parisa Fouladi

14-15 Crwydro Llŷn ac Eifionydd
Dych chi'n adnabod yr ardal?

16 Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd
Dych chi'n dod i'r Eisteddfod?

17 Stori fer
Chwedl Beuno a'r Aderyn

18-19 Coginio gyda Colleen
Dych chi'n hoffi coginio?

20 Rysáit blasus
Beth am roi cynnig arni?

Mwynhau eich Cymraeg

Eisiau ymarfer eich Cymraeg dros yr haf?

DARLLEN


Beth am ddarllen llyfr? Mae tri llyfr newydd o gyfres Amdani yn y siopau:



Chwedlau Cymru: Y Môr gan Fiona Collins - **Mynediad**. Llyfr am **chwedlau** enwog yn hanes Cymru – beth am ddarllen rhan o'r llyfr ar dudalen 17?



Y Llyfr gan Pegi Talfryn - **Sylfaen**. Llyfr am ferch o Newcastle upon Tyne, sy'n dod i Gymru i ddysgu Cymraeg.



Hen Ferchetan gan Ewan Smith - **Canolradd**. Llyfr am Lisa sy'n torri ei chalon, ar ôl colli ei chariad. Mae Lisa yn mynd i Ffair y Bala ac mae popeth yn newid.



CYNLLUN SIARAD

Mae Siarad yn dod â dysgwyr lefel Canolradd, Uwch a Gloywi a siaradwyr Cymraeg at ei gilydd. Ar ôl cael partner Siarad, dych chi'n gallu cwrdd i ymarfer eich Cymraeg. Dych chi'n gallu cofrestru ar dysgucymraeg.cymru.

Mae Siarad wedi ei **seilio** ar gynllun o'r enw Voluntariat per la Llengua yng Nghatalwnia. Mae staff o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg wedi bod i Gatalwnia i ddysgu mwy am y cynllun;

Meddai Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu y Ganolfan Dysgu Cymraeg:

“Roedd hi'n wych gweld bod y cynllun yng Nghatalwnia yn **enfawr**. Maen nhw'n gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y dysgwyr yn gallu defnyddio'r Gatalaneg yn y **gymuned**, **yn enwedig** mewn siopau.”

Llun: Staff y Ganolfan Dysgu Cymraeg a rhai o **wirfoddolwyr** Voluntariat per la Llengua, yng Nghanolfan L'Heura, Santa Colomba.



GWYLIO

Bydd llawer o raglenni newydd dros y misoedd nesaf.

Anfamol

Drama ar S4C am Ani, sy eisiau babi. Mae hi'n defnyddio *sperm bank* i gael babi. Mae Ani yn cael babi yn ystod y pandemig. Bethan Ellis Owen, sy'n actio yn Pobol y Cwm, ydy Ani.

Pren ar y Bryn

Yn y ddrاما yma ar BBC Wales, bydd yr actores Suzanne Packer, sy wedi dysgu Cymraeg, yn chwarae cymeriad dysgwraig.

Cyfres gyda Scott Quinnell

Mae Scott Quinnell yn dysgu Cymraeg. Yn y gyfres yma ar S4C, bydd Scott yn cyfarfod llawer o ddysgwyr, gyda Aran Jones o SaySomethingInWelsh.

Chris yn Sgandinafia

Yn y gyfres yma ar S4C, bydd Chris y cogydd yn mynd i Sgandinafia i ddysgu am fwyd y wlad.

Croeso i Dubai

Rhaglen ar S4C sy'n edrych ar fywyd Mike Phillips, y cyn chwaraewr rygbi, yn Dubai.


CYSTADLU

Eisiau cyfle i ennill cwrs am ddim? Dych chi angen ysgrifennu am eich ardal. Beth sy'n dda am yr ardal? Pam **ddylai** pobl ddod i'r ardal? Ysgrifennwch hyd at 100 gair am eich ardal, ac e-bostiwch eich darn at swyddfa@dysgucymraeg.cymru neu ewch i dysgucymraeg.cymru a llenwch y ffurflen ar dudalen y cylchgrawn.

Mae dysgwyr ar bob lefel yn gallu cystadlu. 'Dyn ni'n mynd i ddevis y tri darn gorau, a rhoi cwrs am ddim i'r enillwyr.

Y dyddiad cau ydy 31 Awst.

Mae'r **telerau ac amodau** llawn ar dysgucymraeg.cymru.



GEIRFA

chwedlau - legends
seilio - based on
enfawr - enormous
cymuned - community
yn enwedig - especially
gwirfoddolwyr - volunteers
dylai - should
telerau ac amodau - terms and conditions



Do you want to practise your Welsh? Tune into the new programmes scheduled for S4C, pick up a new book from the Amdani series or sign up to Siarad, the scheme that brings Welsh speakers and learners together. You could also try our competition to be in with a chance of winning a free Learn Welsh course. E-mail us by 31 August, and tell us in Welsh what's special about your area.



POSAU

Dych chi'n hoffi gwneud posau? 'Dyn ni wedi creu Chwilair a Chroesair i chi. Mae atebion y Croesair ar dudalen dau ac ewch i [dysgucymraeg.cymru](https://www.learnwelsh.cymru) i gael atebion y Chwilair. Pob lwc!

T	P	C	R	C	A	N	U	Y	B	G	D	S	I	O	P	A	H	R
B	A	O	E	M	S	L	U	D	M	W	C	A	O	T	I	S	W	H
S	S	I	W	R	L	T	L	W	A	L	Y	Y	W	S	A	T	Y	A
E	C	R	Th	Y	D	B	O	L	H	Ch	A	D	U	N	I	L	L	G
R	Y	R	T	G	Y	O	A	N	Y	A	H	C	A	P	S	M	U	L
E	S	S	E	L	E	G	R	N	D	F	M	U	I	D	O	I	L	E
M	T	I	C	F	I	R	A	I	D	I	R	Y	F	O	I	B	O	N
O	A	O	R	O	T	T	D	D	A	I	N	A	W	E	E	O	T	Y
N	D	E	I	N	R	A	P	E	A	E	A	A	U	Y	N	D	D	O
I	L	A	N	W	W	A	U	C	D	I	Th	U	U	H	U	I	W	Th
A	U	U	G	L	F	Y	U	U	Y	D	R	H	M	I	M	F	Â	T
F	E	D	R	U	R	U	C	F	N	U	D	L	O	U	I	S	R	W
P	E	N	T	R	E	F	D	Y	S	G	U	C	Y	M	R	A	E	G
W	P	U	I	N	T	G	G	O	C	W	Y	A	L	M	N	O	I	S

Chwilair

cerddoriaeth

y gadair

cystadlu

bandiau

siopa

corau

ymlacio

seremoni

bwyd a diod

llyfrau

dawnsio

stondinau

taith gerdded

crefftau

pentref dysgu

Cymraeg

canu


hufen iâ

hwyl

sioeau

rhaglen

Croesair



Mae **cytseiniaid** dwbl yn llenwi un sgwâr.

Ar draws

1. Saith diwrnod.
2. Roedd tri ym mis Mai eleni.
3. Het arbennig i **frenin** neu fardd.
4. Enw'r **wyl** Gymraeg fawr sy'n digwydd yng Nghymru.
5. Pam a jam; car a bar; côr a môr. Beth dych chi'n weld yn y geiriau yma?
6. Morganwg neu Williams? Hefyd, enw'r ysgol Gymraeg yn y Bont-faen.
7. Mae corau yn gwneud hyn.
8. **Pabell** enfawr a chartref y cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
9. Eisteddfod 2024: Rhondda Cynon_.

I lawr

1. Rhywbeth **melys**; mefus neu siocled?
2. Lliw yr awyr ar ddiwrnod braf.
3. Mis yr Eisteddfod Genedlaethol.
4. Am yn ail flwyddyn mae'r Eisteddfod yn y ___ a'r gogledd.
5. Pobl sy'n rhoi eu hamser nhw am ddim i helpu, efallai mewn siop **elusen** neu yn yr Eisteddfod.
6. Prynwch anrheg neu fwyd o un o'r rhain mewn gŵyl.
7. Creu rhywbeth â llaw, **gwau** neu **grosio**, er enghraifft.



Do you like puzzles? Why not have a go at completing our Word Search or Crossword? Answers to the Crossword can be found on page two, and answers to the Word Search can be found on [learnwelsh.cymru](https://www.learnwelsh.cymru). Good luck!



GEIRFA

cerddoriaeth

- music

cystadlu - compete

stondinau - stalls

cytseiniaid

- consonants

brenin - king

gŵyl - festival

pabell - tent

melys - sweet

elusen - charity

gwau - knit

grosio - crochet

Felicity *yn helpu'r Gymraeg i ffynnu*

Dych chi'n adnabod Felicity Roberts? Mae hi'n diwtor Cymraeg ers dros 50 mlynedd. Mae hi'n byw yn Aberystwyth. Yn ddiweddar, mae hi wedi ennill gwobr Ysbrydoli! ar gyfer tiwtoriaid, gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Mae Felicity wedi dysgu Cymraeg ar bob lefel - o lefel Mynediad i lefel Gloywi.



Gair gan Felicity

Beth sy'n bwysig yn eich gwersi?

"Mae hwyl a chwerthin yn bwysig iawn. Dw i'n hoffi defnyddio lluniau gyda geirfa. Dw i'n hoffi cael rhywbeth bach doniol yn y lluniau. Dw i hefyd yn defnyddio deialog, a rhaid i'r dysgwyr ddysgu'r ddeialog ar eu cof. Mae hynny'n llawer o hwyl."

Beth sy'n bwysig wrth ddysgu Cymraeg?

"Mae'n bwysig dal ati. Mae rhai pobl sy'n cychwyn yn dda iawn; maen nhw'n gallu cofio geiriau ac **ynganu** yn berffaith. Ond y bobl sy'n gwneud orau yw'r bobl sy'n **cofleidio'r** iaith, ac yn ei throi yn **iaith y galon**. **Yn y pen draw**, mae cariad at yr iaith a **dyfalbarhad** yn mynd â chi'n bell."

Beth sy'n bwysig i'w gofio wrth ddysgu iaith?

"Ffordd o **gyfathrebu** ydy iaith. Mae iaith yn bont rhwng un person a'r llall."

Felicity oedd tiwtor Geraint Wilson-Price, Cyfarwyddwr Dysgu Cymraeg Gwent. Doedd Geraint ddim yn siarad Cymraeg o gwbl pan aeth i Aberystwyth yn yr 1980au.

"Daeth i'r amlwg bod Geraint o **ddifri** am ddysgu'r Gymraeg," meddai Felicity.

"Bob wythnos roedd mwy o fathodynau yn ymddangos ar ei siaced denim wrth iddo ymuno gyda chlybiau Cymraeg **di-ri**. Gwnaeth Geraint gofleidio'r iaith a'i chynnwys yn rhan ganolog o'i fywyd."



Atgofion Geraint Wilson-Price

"Gwnaeth Felicity **argraff** fawr arna i, gyda'i brwdfrydedd a'i **hangerdd** dros ddysgu Cymraeg.

"Ond yn bwysig iawn, roedd yn credu y gallen i lwyddo i ddod yn siaradwr rhugl. Roedd hyn yn bwysig iawn i fi, ac mae'n neges dw i'n ceisio ei rhoi i'n dysgwyr ni, sef 'os dych chi'n dal ati, dych chi'n mynd i lwyddo.'

"Dw i mor ddiolchgar iddi am yr anogaeth. Heb Felicity, faswn i ddim wedi cael gyrfa yn y maes Dysgu Cymraeg."



Mae Felicity hefyd wedi dysgu Cymraeg i'r gwleidydd Alun Davies A.S.:

Atgofion Alun Davies:

"Dw i'n cofio Felicity yn dda," meddai. "Ro'n i wedi cyrraedd Aberystwyth, ddim yn siarad na deall gair o Gymraeg. Awgrymodd rhywun gwrs Dysgu Cymraeg Wlpan (cwrs **dwys**). Felicity oedd y tiwtor. Roedd hi'n diwtor gwych. Roedd ganddi **ymrwymiad** ac empathi - a gyda mi, amynedd! Roedd gyda hi steil hawdd ac agored.

"O fewn ychydig wythnosau, ro'n i'n teimlo y gallwn ddysgu siarad Cymraeg. O fewn ychydig fisoedd ro'n i'n siarad ac yn deall Cymraeg. Newidiodd hynny fy mywyd."



Felicity Roberts has taught Welsh to adults for over 50 years and recently won an 'Inspire!' tutor award with the Learning and Work Institute. Geraint Wilson-Price, Director at Learn Welsh Gwent, and Welsh Senedd Member, Alun Davies, are among those she has taught, and both share their memories of Felicity in this article.



GEIRFA

ffynnu - thrive

ynganu - pronounce

cofleidio - embrace

iaith y galon

- language of the heart

yn y pen draw - in the long run

dyfalbarhad

- determination

cyfathrebu

- communicate

Cyfarwyddwr

- Director

o ddifri - seriously

di-ri - numerous

argraff - impression

angerdd - passion

dwys - intense

ymrwymiad

- commitment



Bryd ni

Dyma sgwrs gyda Gwyn Derfel, sy'n gweithio i Undeb Rygbi Cymru fel Rheolwr Datblygu'r Gymraeg.

BETH YW EICH CEFNDIR?

Ro'n i'n **Rheolwr Cyffredinol** ar y Cymru Premier (**Cynghrair** Cenedlaethol Pêl-droed Cymru) am 12 mlynedd. Cyn hynny ro'n i'n gweithio ym myd **darlledu** chwaraeon. Dw i wedi bod yn lwcus iawn i fyw mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru, sy wedi bod yn help mawr i ddeall gwahanol **agweddau** at yr iaith. Dw i'n credu bod yr agwedd at y Gymraeg yn dda iawn ar hyn o bryd, a dyna un o'r rhesymau pam dw i'n teimlo mor lwcus i weithio yn fy swydd gyda Undeb Rygbi Cymru.

DYCH CHI'N SIARAD CYMRAEG YN Y GWAITH?

Ydw, bob dydd. 'Dyn ni'n cynnal **arolwg** ar hyn o bryd i ddysgu faint o bobl yn yr Undeb sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae dros 100 o staff wedi dweud eu bod nhw eisiau dysgu'r iaith hefyd.

BETH YW EICH DIWRNOD GWAITH ARFEROL?

Mae pob diwrnod yn wahanol, sy'n hyfryd. Dw i'n ysgrifennu erthyglau Cymraeg ac yn helpu tîm y cyfryngau cymdeithasol gyda'r Gymraeg. Yn ddiweddar, gweithiais i gyda thîm menywod Cymru gyda'u **cyfweiliadau** Cymraeg ar gyfer **Pencampwriaeth** y Chwe Gwlad. Roedd yn lot o hwyl gan fod cymeriadau mawr yn y **garfan**.

DYCH CHI'N CEFNOGI TÎM RYGBI RHANBARTHOL?

Pob un, ond achos bod fy mab ifanca'n chwarae i glwb Tondu, mae gyda ni gysylltiad agosach gyda'r **Gweilch**.



BETH YW EICH DIDDORDEBAU?

Cerddoriaeth, teithio a mynd i'r garafán yn Llangrannog mor aml â phosib.

BETH YW EICH CYNGOR I BOBL SY'N DECHRAU DYSGU CYMRAEG?

Ewch amdani. Mae llawer o gyfleoedd i ddysgu'r iaith ond beth sy'n bwysig yw **magu hyder** i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol. Dim ond ychydig iawn o bobl sy'n siarad Saesneg yn berffaith - felly does dim ots os oes ambell i gamgymeriad bach wrth siarad **iaith y Nefoedd!**

BETH YW EICH HOFF AIR CYMRAEG, A PHAM?

Diolch. Gair bach sy'n dweud llawer.

DISGRIFIWCH EICH HUN MEWN TRI GAIR!

Brwdfrydig, **breintiedig** a hapus.

rygbi

Pob lwe Cymru!

Bydd tîm rygbi Cymru yn cystadlu yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc:

- 10 Medi Cymru v Fiji
- 16 Medi Cymru v Portiwgal
- 24 Medi Cymru v Awstralia
- 7 Hydref Cymru v Georgia



GEIRFA

Rheolwr Cyffredinol - General Manager
cyngghair - league
darlledu - broadcasting
agweddau - attitudes
arolwg - review
cyfweiliadau - interviews
pencampwriaeth - championship
carfan - team
Gweilch - Ospreys
magu hyder - build confidence
laith y Nefoedd - Language of Heaven (Welsh!)
breintiedig - privileged



GEIRFA RYGBI

Beth am ddysgu'r geiriau yma yn barod ar gyfer y bencampwriaeth?

pêl - ball
taclo - to tackle
tacl uchel - high tackle
tacl hwyr - late tackle
llinell gyffwrdd - touch line
cais - try
cais cosb - penalty try
sgrym - scrum
llinell gais - try line
ystlys - touch line
ryc - ruck
llinell - line out
cic adlam - drop kick
olwyr - backs
blaenwyr - forwards
cefnwr - full back
asgellwr - winger
canolwr - centre
maswr - fly half
mewnwr - scrum half
prop - prop
bachwr - hooker



Gwyn Derfel, who has started a new post with the Welsh Rugby Union as Welsh Language Development Manager, talks about his work and interests, and shares some top tips for learning Welsh.





Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg i bobl ifainc 18 - 25 oed am ddim!

Dyma Owen Stone, sy'n 24 oed, ac sy'n dod o Gasnewydd.

Pryd wnest ti ddechrau dysgu Cymraeg?

Gwnes i ddechrau dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Gwnes i TGAU Cymraeg ond wnes i ddim siarad Cymraeg wedyn am 10 mlynedd.

Roedd pobl yn gofyn yn y brifysgol 'Sut wyt ti'n dweud... yn Gymraeg?'. Ro'n i'n teimlo **cywilydd** achos do'n i ddim yn gallu ateb!

Dw i'n cael gwersi Cymraeg gyda Dysgu Cymraeg Gwent ers 2022.

Pam oeddet ti eisiau siarad Cymraeg?

Es i i dwrnament rygbi saith bob ochr yr Urdd yng Nghaerdydd. R'on i'n **ddyfarnwr**. Ro'n i'n **synnu** faint o blant oedd yn siarad Cymraeg. Gwnes i darged i ddysgu tipyn bach o Gymraeg.

A dw i'n meddwl fy mod i wedi **llwyddo**. Yn y twrnament eleni, ro'n i'n deall pob **cyhoeddiad** ac yn gallu sgwrsio gyda staff a phrentisiaid yr Urdd yn Gymraeg.

Fy nharged y flwyddyn nesa yw gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus pan dw i'n dyfarnu gêm.

Beth sy'n helpu i ddysgu Cymraeg?

Mae fy nhwtor Dysgu Cymraeg, Eiry Miles, yn wych ac mae hi wedi fy helpu llawer i siarad Cymraeg yn y **gymuned!**

Mae fy nghariad a'i theulu yn dod o Lanbedr Pont Steffan ac maen nhw'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Pan dw i gyda nhw, dw i'n dysgu dweud pethau mewn ffordd wahanol.

Hefyd, dw i'n defnyddio technoleg i ddysgu - Duolingo a SaySomethingInWelsh.

Dw i'n gobeithio bydda i'n gallu siarad yn rhugl yn y blynyddoedd nesaf, gyda gwaith caled!

Beth yw dy gyngor i bobl sy eisiau dysgu Cymraeg?

Ewch amdani ac yn bwysig iawn, mwynhewch!

Byddwch chi'n gwneud camgymeriadau ar y dechrau ond rhaid i chi gadw i fynd. Bydd y camgymeriadau yn eich gwneud chi'n siaradwr gwell.

Felly, gwnewch y mwyaf o'r cyfle a dechrau siarad Cymraeg!

Iaith pobl ifainc

"Wyt ti 'di cael **hercan**?" - "Hoffi'r **sgiliau moethus!**"
"Wwww, mae o di cael **copsan** yn **bachu'r** gacen ola!" - "Rwyt ti braidd yn **bifish** heddiw."

Mae pobl ifainc yn defnyddio geiriau llafar ac mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg eisiau gwybod beth ydyn nhw.

Wyt ti wedi dysgu geiriau newydd gan bobl ifainc yn dy ardal di? Rho wybod i ni!

Iaith pobl ifainc:
dysgucymraeg.cymru

GEIRFA

cywilydd - shame
dyfarnwr - referee
synnu - surprised
llwyddo - succeed
cyhoeddiad - announcement
cymuned - community

Iaith pobl ifainc

hercan - torri gwallt - haircut
sgiliau moethus - **sgiliau gwy**ch - great skills
copsan - wedi **dy ddal** - caught in the act
bachu - **cymryd** - to take something
bifish - **blin/crac** - moody



Would you like to learn Welsh like Owen Stone? If you're between 18 - 25 years old, you can have free lessons! Register here: www.learnwelsh.cymru



Croeso i Bawb

Mae'r Ganolfan wedi creu pecyn o adnoddau ar gyfer pobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg. Enw'r pecyn yw 'Croeso i Bawb'.

Yn y pecyn, mae modiwl yn cyflwyno pobl, **diwylliant** a hanes Cymru. Mae gwersi blasu Dysgu Cymraeg ar-lein hefyd.

Mae'r pecyn ar gael mewn sawl iaith - **gan gynnwys** Wcreineg, Cantoneg, Arabeg Syria, Farsi a Pashto. Mae gwersi Dysgu Cymraeg wyneb-yn-wyneb ar gael fel rhan o'r pecyn mewn sawl ardal.



Mae Vladyslav Kulikov o'r Wcrain wedi dilyn cwrs **Croeso i Bawb**. Mae'n dysgu Cymraeg ar lefel Mynediad erbyn hyn. Dyma ychydig o'i hanes:

O ble wyt ti'n dod a phryd wnest ti gyrraedd Cymru?

Dw i'n dod o Kyiv yn Wcrain, ond pan ddechreuodd Rwsia **ymosod** ar 24 Chwefror 2022, roedd yn rhaid i ni symud i orllewin Wcrain. Dyna pryd **gwnes i gais** i wneud Phd ym Mhrifysgol Bangor. Gwnes i gyrraedd Cymru ar 20 Mehefin 2022.

Beth oeddet ti'n ei wybod am Gymru cyn cyrraedd?

Dim llawer! Ro'n i'n gwybod fod Cymru yn rhan o'r **Deyrnas Unedig** ac mai Caerdydd oedd y brifddinas, ond dyna i gyd!

Sut mae dysgu Cymraeg wedi dy helpu i setlo?

Mae wedi bod yn **brofiad** gwych dysgu Cymraeg. Mae'r tiwtoriaid yn garedig iawn. Dyw'r rhaglen ddim yn rhy anodd a dw i'n gallu **canolbwyntio** ar bethau eraill, fel fy nghwrs Phd. Dw i'n hoffi pa mor **hyblyg** ydy'r cwrs.

Ond, y peth dw i'n hoffi fwyaf, ydy bod yr ychydig o Gymraeg sy gen i yn fy helpu i **gysylltu** gyda diwylliant **unigryw** Cymru. 'Dyn ni yn yr Wcrain yn gwybod yn iawn pa mor bwysig ydy iaith er mwyn cadw diwylliant a **traddodiad** yn fyw.

Sut mae'r dysgu yn mynd?

Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg yn fawr. Dw i'n mynd i aros ym Mangor am ddwy flynedd, a dw i'n gobeithio y bydd fy Nghymraeg yn dda erbyn diwedd y ddwy flynedd!

GEIRFA

diwylliant - culture
gan gynnwys - including
ymosod - attack
gwneud cais - apply
Deyrnas Unedig - United Kingdom
profiad - experience
canolbwyntio - concentrate
hyblyg - flexible
cysylltu - connect
unigryw - unique
traddodiad - tradition



Vladyslav Kulikov is from Ukraine and arrived in Wales to study a Phd at Bangor University in June 2022. Vladyslav didn't know much about Wales, but the 'Croeso i Bawb' (Welcome to Everyone) resources helped him learn more about Wales' culture and start to learn Welsh.



Sgwrs gyda

Parisa Fo

Yma, 'dyn ni'n holi'r gantores a chyfansoddwraig Gymraeg Iranaid, Elin Parisa Fouladi. Darllenwch y cyfweiliad i ddod i'w hadnabod yn well.

Ers pryd wyt ti'n canu a chyfansoddi?

Dw i wedi bod yn canu mor hir a galla i gofio! Falle ers o'n i'n chwech oed. Gwnes i gyfansoddi y gân gyntaf yn 10 neu 11 oed ond gwnes i ddechrau cyfansoddi a recordio o ddifri pan o'n i tua 18 oed.

Pa fath o ganeuon wyt ti'n eu cyfansoddi?

Dw i'n canu ac yn cyfansoddi cerddoriaeth eitha *neo-soul* gyda ychydig o gerddoriaeth jazz a funk, baswn i'n ei ddweud! Mae'n anodd ei ffitio i mewn i focs dw i'n meddwl!

Beth oedd dy hoff gig erioed?

Y gig wnes i yn Focus Wales yn Wrecsam eleni, ble wnes i berfformio yn Eglwys St Giles. Roedd e'n brofiad anhygoel gyda'r awrygylch gorau, ac i mi, beth sy'n gwneud gig dda ydy'r lleoliad a'r awrygylch.

Pwy ydy dy arwyr cerddorol?

Mae llawer o hoff gantorion gyda fi fel Aretha Franklin, Etta James a Nina Simone. Dw i wrth fy modd gyda gwaith Nina Simone, a'r ffordd roedd hi'n chwarae'r piano. Roedd ei llais mor unigryw hefyd. Dw i'n hoffi gwranddo ar lawer o *genres* gwahanol. Un o fy hoff fandiau ar hyn o bryd ydy Khruangbin.

Sut gallwn ni wrando ar dy gerddoriaeth?

Ar yr holl blatfformau arferol fel Spotify ac Apple Music. Mae rhai fideos gyda fi ar YouTube hefyd.

Beth wyt ti'n mwynhau ei wneud yn dy amser hamdden?

Dw i'n mwynhau arlunio a pheintio. Dw i hefyd yn ymgyrchu dros faterion sy'n agos iawn at fy nghalon - y symudiad 'merched, bywyd, rhyddid' yn Iran a phethau fel hiliaeth a materion ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Dw i'n teimlo'n gryf am sefyll fyny dros beth dw i'n ei gredu ac mae'n rhywbeth sy'n rhaid i mi ei wneud! Alla i ddim eistedd yn ôl a gwneud dim!

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Cwestiwn anodd! Yr un amlwg byddai 'creadigol', dw i ddim yn gwybod ble baswn i heb bethau creadigol yn fy mywyd! Hefyd, baswn i'n dweud 'compassionate' ac 'angerddol'.

Beth ydy dy hoff air Cymraeg?

O, dim syniad!! Erm, tangnefedd falle. Jest yn swnio mor hyfryd ac wrth gwrs, gyda ystyr mor hyfryd hefyd!

Beth ydy dy gyngor i ddysgwyr Cymraeg?

Fy nghyngor i ydy i wastad fod yn hyderus i siarad Cymraeg a pheidio poeni am ofyn cwestiynau neu am ofyn i rywun ail adrodd rhywbeth. Hefyd, gwranddo ar gerddoriaeth Gymraeg a gwyllo rhaglenni Cymraeg! A'r peth pwysicaf, i ddal ati a chredu yn dy hun!

“ Here we chat to Welsh Iranian singer-songwriter, Parisa Fouladi. You can listen to her music on all streaming platforms as well as her YouTube channel. ”

Ymlaeni



Lirica - dysgu Cymraeg trwy wrando ar gerddoriaeth

O fis Medi ymlaen, bydd hi'n bosib defnyddio ap o'r enw **Lirica** i'ch helpu chi i ddysgu Cymraeg trwy wrando ar gerddoriaeth Gymraeg. Bydd modd **lawrlwytho'r** ap ar **App Store** neu **Google Play**.

Dych chi'n gwranddo ar gân, a bydd yr ap yn rhoi **ymarferion** darllen a deall, geirfa a gramadeg i chi sy'n seiliedig ar y gân.

Bydd 30 cân Gymraeg ar gael, gan gynnwys:

- *Eto gan Adwaith*
- *Mae'n amser* gan Lili Beau
- *Dos yn dy Flaen* gan Bwncath
- *Coffi Du* gan Gwibdaith Hen Frân a llawer iawn mwy!

GEIRFA



cyfansoddi - compose
o ddifri - seriously
profiad anhygoel - fantastic experience
awyrgylch - atmosphere
lleoliad - location
arwyr cerddorol - musical heroes
unigryw - unique
ymgyrchu dros faterion - campaign for issues
symudiad - movement
rhyddid - freedom
hiliaeth - racism
ceiswyr lloches - asylum seekers
ffoaduriaid - refugees
creadigol - creative
angerddol - passionate
tangnefedd - peace



In the autumn, you can enjoy practising your Welsh by using the Lirica app. You'll be able to listen to a Welsh song, and then follow language exercises based on the song.



GEIRFA

lawrlwytho - download
ymarferion - exercises

Crowdro Llŷn ac Eifionydd



Mae'r Eisteddfod Genedlaethol
yn digwydd ym Moduan,
Pen Llŷn rhwng 5-12 Awst 2023.

*Mae llawer iawn o bethau i'w gwneud yn yr ardal.
Dyma rai syniadau i chi:*



Caffi Porthdinllaen

Mae Caffi Porthdinllaen
wrth ymyl traeth Morfa
Nefyn. Ffaith ddiddorol?
Dyma'r lle gorau am bwdin!
Côd post: LL53 6DA



Y Den, Pwllheli

Canolfan chwarae meddal i
blant o dan 12 oed.
Cost? £5 y plentyn.
Côd post: LL53 5BY



Caffi Siop Plas, Anelog

Mae Caffi Siop Plas wrth
ymyl Llwybr yr Arfordir.
Ffaith ddiddorol? Mae'r caffi
bum munud o Aberdaron
mewn car.
Côd post: LL53 8LL



Cwch Achub RNLI, Pwllheli

Dewch i weld y **cychod**
achub yng ngorsaf RNLI
Pwllheli. Ffaith ddiddorol?
Mae'r criw ar raglen 'Saving
Lives at Sea' y BBC.
Côd post: LL53 5YT



Cwt Tatws, Tudweiliog

Safle **gwersylla**, traeth, caffi
a siop ddillad! Ffaith
ddiddorol? **Cyflwynydd**
Ffermio ar S4C, Daloni
Metcalf, ydy perchennog
Cwt Tatws.
Côd post: LL53 8PD



Plas Glyn-y-weddw, Llanbedrog

Mae **arddangosfa** luniau,
caffi a siop ym Mhlas
Glyn-y-weddw.
Ffaith ddiddorol? Dyma'r lle
gorau am gacen!
Côd post: LL53 7TT



Plas-yn-Rhiw - Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Hen blasty gyda gerddi
hyfryd a **golygfa** hardd.
Ffaith ddiddorol? Tair
chwaer oedd yn byw yn y tŷ.
Côd post: LL53 8AB



Porth Neigwl, Pen Llŷn

Mae traeth hir, melyn ym
Mhorth Neigwl. Ffaith
ddiddorol? Dyma un o'r
traethau gorau i syrffio ym
Mhen Llŷn.
Côd post: LL53 7LG



Becws Islyn, Aberdaron

Becws yn gwerthu cacennau, bara a phastai hyfryd. Ffaith ddiddorol? Mae'r pastai llysieuol yn flasus iawn!

Côd post: LL53 8BE



Ynys Enlli, Pen Llŷn

Mae cwch yn mynd bob dydd i ynys hardd Enlli (os ydy'r tywydd yn iawn!). Ffaith ddiddorol? Mae Ynys Enlli 1.9 milltir allan yn y môr. Gwefan:

bardseyboattrips.com
Côd post Porth Meudwy: LL53 8DA



Rheilffordd Ffestiniog, Porthmadog

Mae trênn stêm yn mynd o Borthmadog i Gaernarfon, ac o Borthmadog i Ffestiniog. Ffaith ddiddorol? Mae taith i Gaernarfon yn cymryd 2 awr a 15 munud. Gwefan: festrail.co.uk



Nant Gwrtheyrn, Llithfaen

Mae traeth bach hyfryd a chaffi yn Nant Gwrtheyrn. Ffaith ddiddorol? Mae canolfan Nant Gwrtheyrn yn dysgu Cymraeg i bobl ers 1982.

Côd post: LL53 6NL



Tre'r Ceiri, Llithfaen

Mae **olion** tua 150 o **dai crwn** o **Oes yr Haearn** yn Nhref'r Ceiri. Ffaith ddiddorol? Taith gerdded hyfryd i'r teulu.

Côd post: LL53 6NU



Tafarn Whitehall, Pwllheli

Tafarn dda gyda bwyd blasus ym Mhwllheli. Ffaith ddiddorol? Mae'r cinio dydd Sul yn arbennig o dda!

Côd post: LL53 6PA



Y Lôn Goed, Chwilog

Llwybr cerdded enwog o dan goed hardd. Ffaith ddiddorol? Ysgrifennodd y bardd R Williams Parry gerdd enwog amdani hi. Côd post: LL53 6SN

Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd

Dyma ble mae'r Eisteddfod eleni. Mae Boduan tua 4 milltir o Bwllheli.

Côd post: LL53 6DR



GEIRFA

gwersylla - camping
cyflwynydd - presenter
golygfa - view
cychod achub - life boats
arddangosfa - exhibition
becws - bakery
olion - remains
tai crwn - round houses
Oes yr Haearn - Iron Age



The Llŷn and Eifionydd National Eisteddfod will be held in Boduan, near Pwllheli this year. Here, we share a little bit of local knowledge about places to visit in the area.



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLŶN AC EIFIONYDD

15-12 Awst 2023

Dych chi wedi bod yn yr Eisteddfod Genedlaethol? Mae'r Eisteddfod yn lle gwych i siarad Cymraeg.

Mae croeso mawr i ddysgwyr ym mhob rhan o'r Eisteddfod, ac mae ardal arbennig i ddysgwyr, o'r enw Maes D.

BETH SY'N DIGWYDD YN MAES D?



Bob dydd, mae sesiwn stori am 10:30yb.



Mae sesiwn bore a sesiwn prynhawn. Bydd cyfle i glywed am hanes Nant Gwrtheyrn, **llwyddiant** clwb pêl-droed Wrecsam, **dysgwyr o dramor** sy'n byw yn Llŷn ac Eifionydd, **hanesion** lleol a llawer mwy.



Bydd grwpiau **gwerin** fel Plu a Cowbois Rhos Botwnnog yn Maes D am 1.00yp bob dydd a mwy o gerddoriaeth ar ddiwedd y prynhawn, gyda artistiaid fel N'famady Kouyate a Bwncath.



Dych chi'n hoffi celf? Dewch i'n cwt crefftau i wneud crefft gyda artist gwahanol bob dydd.



Barod am ychydig o fflamingo? Dewch i ddawnsio gyda chriw Mas ar y Maes.



Amserlen Maes D:

eisteddfod.cymru/addysg/dysgu-cymraeg



Pwy fydd yn ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn eleni? Mae'r seremoni ar ddydd Mercher, 9 Awst.



Dim ond un gornel o'r Maes ydy Maes D - mi fydd cannoedd o ddigwyddiadau ymlaen yn ystod yr wythnos, a digon o stondinau diddorol ar Faes yr Eisteddfod.

Dewch draw i Llŷn ac Eifionydd i gael eich **trochi** yn y Gymraeg.

Edrych ymlaen at eich gweld!

Tocyn i'r Eisteddfod:
eisteddfod.cymru

GEIRFA


llwyddiant - success
dysgwyr o dramor - Welsh learners from abroad
hanesion - stories
gwerin - folk
trochi - immersion




The National Eisteddfod will be visiting Llŷn ac Eifionydd this year, held near the small village of Boduan. It's a great place to hear and speak Welsh, with plenty to do for all the family.



BEUNO A'R ADERYN



Dyma **chwedl** am Beuno a'i hoff daith gerdded – dros wyneb y môr. Mae'r chwedl yn rhan o lyfr **Chwedlau Cymru: Y Môr** gan Fiona Collins, o gyfres Amdani. Mae pob chwedl yn y llyfr am y môr, ac mae'r chwedlau'n dod o wahanol leoliadau yng Nghymru.



Roedd Beuno Sant yn byw ger Clynnog Fawr ym Mhenrhyn Llŷn. Mae eglwys Beuno Sant yn dal yno.

Roedd Beuno'n caru'r môr. Bob dydd Sul, roedd o'n mynd i Landdwyn ar Ynys Môn i **bregethu**.

Doedd Beuno ddim yn teithio ar y **tir** i gyrraedd Llanddwyn. Roedd Beuno'n cerdded dros wyneb y môr. Roedd o'n cerdded ar y dŵr o Glynog Fawr i Landdwyn ac yn ôl. Roedd o'n hoffi darllen y **Beibl** wrth gerdded dros y môr.

Ond un diwrnod, **syrthiodd** ei Feibl **o'i ddwylo** ac i mewn i'r môr. O diar! Roedd y Beibl yn y dŵr.

Doedd Beuno ddim yn hapus. Roedd o'n drist. Roedd **aderyn** yn hedfan **uwchben** Beuno. **Gylfinir** oedd yr aderyn. Gwelodd yr aderyn bopeth.

Hedfanodd i lawr a gafael yn y Beibl gyda'i **big** hir.

Hedfanodd y gylfinir i Glynog Fawr a rhoi'r Beibl ar **garreg** fawr i **sychu** yn yr haul. Pan gyrhaeddodd Beuno yn ôl, roedd o'n **falch** iawn o weld y Beibl.

'Diolch i ti, aderyn, fy ffrind,' dwedodd o. 'Rwy'ti'n annwyl iawn. Mi wnest ti **warchod** y Beibl. Felly, dw i isio gwarchod ti.'

Ar ôl hynny, roedd Beuno'n dweud wrth bawb: 'Mae'r gylfinir yn aderyn arbennig. Dw i'n mynd i warchod y gylfinir – ei warchod rhag bob **perygl**.'

Hyd heddiw mae pobl yn cofio chwedl Beuno a'r gylfinir.

GEIRFA




chwedl - myth
pregethu - to preach
tir - land
Beibl - Bible
syrthio - to fall
o'i ddwylo - from his hands
aderyn - bird

uwchben - above
gylfinir - curlew
pig - beak
carreg - stone
sychu - to dry
balch - glad
gwarchod - to protect
perygl - danger



Fiona Collins has published a new book for Entry level Welsh learners called *Chwedlau Cymru: Y Môr*. The book features a collection of Welsh legends, including Beuno a'r Aderyn, which we've featured here. ”



COGINIO GYDA Colleen

Dych chi'n hoffi coginio? Mae Colleen Ramsey yn hoffi coginio. Mae Colleen wedi coginio ar S4C. Mae rhaglen gyda hi o'r enw 'Bywyd a Bwyd'. Mae hi hefyd wedi ysgrifennu llyfr coginio o'r enw 'Bywyd a Bwyd'.

Gŵr Colleen ydy Aaron Ramsey, capten tîm pêl-droed Cymru. Maen nhw'n dod o Gaerffili ac mae tri o blant gyda nhw.

Mae Colleen ac Aaron wedi byw yn Yr Alban ac yn Yr Eidal. Maen nhw'n byw yn Nice, Ffrainc nawr.

'Dyn ni wedi siarad â Colleen:

Wyt ti'n gweld eisiau Cymru?

Ydw, dw i'n gweld eisiau'r teulu.

Ers pryd wyt ti'n coginio?

Gwnes i ddechrau coginio yn y brifysgol.

Beth wyt ti'n hoffi bwyta?

Spageti gyda clams.

O ble mae'r syniadau coginio yn dod?

Dw i'n meddwl am fwyd drwy'r dydd, mae'n obsesiwn!

Wnest ti fwynhau coginio ar y teledu?


Do, ro'n i'n ofnus, ond dw i'n falch iawn o'r gyfres.

Wyt ti eisiau ysgrifennu llyfr arall?

Ydw, dw i eisiau ysgrifennu llyfr arall yn y dyfodol.

Beth nesaf i Colleen?

Cyfres arall ar S4C ym mis Rhagfyr.





Lluniau: Glyn Rainer

”

GEIRFA

prifysgol - university
syniadau - ideas
ofnus - scared
balch - pleased
cyfres - series

”

Here we chat to Colleen Ramsey, who has recently appeared on S4C with her own cookery series, 'Bywyd a Bwyd'. Why not give Colleen's recipe on page 20 a go, to be in with a chance of winning her 'Bywyd a Bwyd' cookery book?

”

Rysáit

Dych chi eisiau ennill llyfr Colleen?

Er mwyn cael cyfle i ennill y llyfr, dych chi angen coginio'r rysáit yma, ac anfon llun o'ch shakshuka chi at swyddfa@dysgucymraeg.cymru cyn 31 Awst. Pob lwc!



SHAKSHUKA

(1 neu 2 person)

Beth dych chi angen?

- ~ 1 pecyn o gaws feta
- ~ 1 **llwy fwrdd** o iogwrt
- ~ Tipyn bach o fêl
- ~ Tipyn bach o **sbigoglys**
- ~ Pupur a halen
- ~ Olew
- ~ Jar o bupurau coch
- ~ 10 llwy fwrdd o passata
- ~ 1 llwy fwrdd o siwgr neu fêl
- ~ 1 llwy fwrdd o pesto
- ~ 2 wy
- ~ 2 lwy fwrdd o bersli wedi'u torri'n fach
- ~ 2 lwy fwrdd o **sifys** wedi'u torri'n fach

Dull

- ~ Cynheswch y gril i wres uchel. Rhowch hanner y feta a'r iogwrt mewn **cymysgydd bwyd**, a chymysgu nhw tan eu bod nhw yn **llyfn**. Rhowch dipyn bach o fêl gyda nhw. Rhowch nhw ar waelod **padell ffrio** gyda **chaead**.
- ~ **Cynheswch** y sbigoglys mewn sosban arall. **Ychwanegwch** y sbigoglys at y feta yn y badell ffrio, gyda ychydig o bupur a halen.
- ~ Cynheswch olew yn y sosban ac ychwanegwch y jar o bupurau wedi'u torri, y passata a'r siwgr/mêl. Ychwanegwch y pesto a thipyn bach o halen i'r sosban.
- ~ Rhowch y cyfan dros y spigoglys a'r feta yn y badell ffrio. Gwnewch dwll bach yng ngwaelod y badell ffrio a thorri dau wy i mewn i'r twll.
- ~ Rhowch gaead ar y badell ffrio a choginiwch yr wyau am 2 funud tan mae'r wyau wedi'u coginio. Rhowch ychydig o'r caws feta sy'n **weddill**, ar dop y **gymysgedd**.
- ~ Rhowch y persli a'r sifys, pupur du a thipyn bach o fêl ar y shakshuka, a rhowch y cyfan o dan y gril am rai munudau.
- ~ Bwytwch gyda thost.

GEIRFA

llwy fwrdd - tablespoon
sbigoglys - spinach
sifys - chives
cymysgydd bwyd - food processor
llyfn - smooth
padell ffrio - frying pan

chaead - lid
cynheswch - heat
ychwanegwch - add
gweddill - remaining
cymysgedd - mixture

